# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 14eg Ionawr 2019

Presennol: Sian Parri, John Davies, Gareth Jones, Alan Hughes, Medwyn Jones, William W.Owen, Henry Hughes.

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
   a. Dywedodd y Clerc iddi holi ynglyn Deddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2019-20, ac iddi dderbyn eglurhad mai arian y Preasept ydw ac nid arian ychwanegol.

   b. Derbyniwyd ail wahoddiad i Weithdy Cynlluniau Llesiant BGC, ond yn anffodus roedd y dyddiad yma hefyd wedi pasio cyn i'r Cyngor gyfarfod.

   c. Derbynwyd ail lythyr gan Ieuan Wyn Cylch yr Iaith yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned parthed Ail strwythuro Canolfanau Iaith. Gan fod y Clerc eisioes wedi ymateb i hyn, pasiwyd y dylid gwybyddu Ieuan Wyn fod hyn wedi cael ei wneud.

   ch. Yn dilyn cwyn Mrs. Meryl Davies ynglyn a cyflwr lon rhwng Dinas a Tudweiliog, ysgrifennodd y Clerc at yr Adran Priffyrdd. Yn anffodus cafwyd ymated siomedig yn datgan nad oes cyllideb digonol ar hyn o bryd i ystyried ymgymeryd ar gwaith. Paswyd fod y Clerc i wybyddu Meryl Davies o'r ymateb.

d. Dywedodd y Clerc ei bod wedi gweld gliniadur fyddai'n addas i'r gwaith, penderfynnwyd fod y Clerc yn symud ymlaen i'w brynu ac y byddai'r Cynogr yn talu'r gost yn ol iddi mis nesaf.

dd. Unwaith y bydd y Clerc wedi derbyn y gliniadur bydd Simon a hithau yn gweithio ar y gwefan.

e. Ceisiodd y Clerc gael cyfeiriad ebost y Cynghorwyr ond daeth yn amlwg fod sawl un heb ebost.

f. Pasiwyd y dylid codi Praesept 2019/20 i £7000.00

4. **Gohebiaethau**:
   a. Derbynwyd Bwletin Byw yn Iach, cafodd y Cynghorwyr gyfle i edrych arno.

   b. Derbynwyd negas gan Llywodraeth Cymru ynghyd a Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref Rhagfyr 2018 – Cafodd pawb gyfle i edrych drwyddo.

   c. Derbynwyd llythyr gan Cyngor Tref Nefyn yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ystyried cyfranu at gostau cynnal a chadw Llyfrgell Nefyn – pasiwyd i ohurio y penderfyniad tan mis Mawrth pan fyddwn yn rhannu gweddill Praesept.

   ch. Derbynwyd negas gan Elin Wyn Hughes o Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llyn yn ein gwybyddu fod cyflwr hysbysfwrdd pentref Garnfadryn yn wael iawn yn ogystal a chyflwr y giat bren sydd ar ddiwedd y llwybyr sy'n arwain i fyny'r Garn, ac y gellid derbyn grant hyd at 70% o'r gost. Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Elin er mwyn cael ychwaneg o wybodaeth, a bod Henry Hughes yn gofyn i'r Eglwys (sy'n berchen y giat) am ganiatad i osod giat newydd yn ogystal a gofyn i saer coed lleol am pris gwneud hysbysfwrdd newydd. Hefyd gofynwyd i Medwyn Jones geisio cael pris giat newydd a hysbysfwrdd newydd.

   d. Cais Cynllunio C18/1111/46/LL Maes Carafanau Ty'n Llan Cefnogi

dd. Cais Cynllunio C18/0927/46/LL Congl Cae Llangwnadl
Gwrthwynebu- ar sail gorddatblygiad twristiaeth mewn ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan beryglu'r iaith Gymraeg.

e. Cais Cynllunio C18/1113/47/LL Llwyn Ysgaw, Llaniestyn
Cefnogi

f. Cais Cynllunio C18/1139/46/LL Tir ger Garreg Lwyd,Dinas
Dim gwrthwynebiad – ond pryder am gyflwr y lon os bydd mwy o drafnidiaeth trwm fferm – mwd yn cael ei gario ac yn y blaen.

ff. Cais Cynllunio C18/0834/46/LL Morfa Cottage Llangwnadl
Cwestiynu'r angen i ddymchwel ty o gyflwr da?

g. Cais Cynllunio C18/1203/46/LL Ty Coch Llangwnadl
Cefnogi – (Medwyn Jones yn datgan diddordeb ac felly wedi gadael yr ystafell)

ng. Cais Cynllunio C18/1186/46/LL Tyn Ddol Llangwnadl
Cefnogi – (Medwyn Jones yn datgan diddordeb ac felly wedi gadael yr ystafell)

5. **Unrhyw fater arall**:
Doedd dim mater arall

**Cynhelir Cyfarfod Nesaf ar 11fed Chwefror 2019 yng Nghanolfan Tudweiliog am 7.15 o'r gloch.**